# Awdurdod Parc Cenedlaethol
## 11 Chwefror 2026

**Yn bresennol (yn bersonol)**
Dr M Havard (Cadeirydd)
Y Cynghorydd S Alderman, y Cynghorydd D Clements, Miss F Day, y Cynghorydd T Evans, y Cynghorydd C George, y Cynghorydd SL Hancock MBE, Mr J Hogg MBE, Mrs S Hoss, Mr GA Jones, a'r Cynghorydd A Tinley.

**Yn bresennol (ar-lein)**
Y Cynghorydd M Bowen, y Cynghorydd M James, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, y Cynghorydd V Thomas a'r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Kate Attrill (Rheolwr Rheoli Datblygu), Jason Blewitt (Archwilio Cymru), Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Richard Griffiths (Swyddog Adran 151), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), a Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd).

[Ystafell Preseli, Swyddfa Parc Llanion ac Ar-lein, 10.00am – 12.00pm]

**1. Personol**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Miss F Day, yr Aelod newydd diweddaraf i ymuno â'r Awdurdod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. Cyflwynodd Miss F Day ei hun yn gryno a diolchodd i'r Aelodau am eu croeso cynnes.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Ms H Gwenllian a'r Cynghorydd B Price.

**3. Datgan Buddiannau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**4. Cofnodion**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2025 i'w cadarnhau.

Ar gynnig Dr Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd Clements, **penderfynwyd** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2025.

**5. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

O ran y camau gweithredu oedd yn ymwneud â'r Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd, cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod y Pennaeth

Gwasanaethau Pobl wedi dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod o absenoldeb salwch ac o ganlyniad y byddai'r adolygiad yn ailddechrau. Cadarnhaodd y byddai'r adroddiad wedyn yn cael ei gyflwyno gerbron aelodau'r Fforwm Gweithwyr i'w ystyried. Fel y gofynnwyd gan yr Aelodau, cytunwyd y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei gyflwyno gerbron yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'w ystyried.

Nodwyd bod y camau gweithredu oedd gofyn eu cymryd o ran yr enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth â Gwasanaeth Ieuenctid Cyngor Sir Penfro wedi'u cwblhau. Awgrymodd y Cadeirydd bod adroddiad yn cael ei baratoi ar y pwnc hwn, a chytunwyd bod y papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol i'w ystyried.

**Nodwyd.**

6. **Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol yn ystod y mis diwethaf:

- Cyfarfod gyda'r Prif Weithredwr a Swyddogion Gweithredol Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gyfnewid gwybodaeth ac i ddiolch iddynt a'u gwirfoddolwyr am eu gwaith caled.
- Cyfarfod gyda Chadeirydd newydd Partneriaeth y Parc Cenedlaethol.
- Digwyddiad a gynhaliwyd gan yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol yn y Senedd i drafod y Parc Cenedlaethol Morol arfaethedig.
- Cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol lle cymeradwywyd y cytundeb cyflawni drafft ar gynllunio strategol, a thrafodwyd y cynllun cyflawni a'r cyllid trafnidiaeth rhanbarthol, ynghyd â chyfleoedd ariannu posibl.
- Brecwast elusennol blynyddol FUW lle cafodd gyfle i gyfarfod â'r rhanddeiliaid sydd â diddordeb yng ngwaith y Parc Cenedlaethol.

**Nodwyd.**

7. **Adroddiadau cyfarfodydd Pwyllgorau eraill yr Awdurdod**

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 03/12/2025 i'r Aelodau i'w hystyried.

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y pwyllgor uchod.

**Nodwyd.**

**8. Swyddi Gwag ar Bwyllgorau**

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod swyddi gwag wedi codi ar sawl Pwyllgor o ganlyniad i ymadawiad Dr R Plummer. Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd D Clements, **penderfynwyd** llenwi'r swyddi gwag fel a ganlyn:

- Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol – Miss F Day
- Y Pwyllgor Grantiau – Miss F Day
- Y Pwyllgor Safonau – Mr J Hogg
- Y Gweithgor Cynhyrchu Incwm – Miss F Day
- Y Gweithgor Cymorth i'r Aelodau – Mr J Hogg

**9. Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn cynnwys yr adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon a baratowyd gan Archwilio Cymru, y llythyr cynrychiolaeth at archwilwyr, yr Adroddiad Naratif Blynyddol, Y Datganiad o Gyfrifon 2024/25, a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr at sawl ffactor oedd wedi arwain at yr oedi cyn cyflwyno'r papurau i'r Aelodau gan gynnwys lefel yr adnoddau o fewn yr adran gyllid, cyflwyno system gyllid newydd, a'r nifer sylweddol o ymholiadau archwilio a dderbyniwyd oddi wrth Archwilio Cymru. Manteisiodd y Prif Weithredwr ar y cyfle i ddiolch i Adran Gyllid yr Awdurdod am eu gwaith caled drwy gydol y broses.

Croesawodd y Cadeirydd Mr J Blewitt (Archwilio Cymru) a gyflwynodd adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon. Tynnwyd sylw at ganfyddiadau allweddol yr adroddiad, oedd yn cynnwys bwriad Archwilio Cymru i gyhoeddi barn ddiamod ar y cyfrifon, y ffaith bod un mater arwyddocaol i'w adrodd, ac un maes yr oedd angen ei ystyried ymhellach, nad oedd unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon, a bod y cyfrifon drafft wedi'u derbyn ar y 7$^{fed}$ o Awst 2025, oedd yn ddiweddarach na'r dyddiad cau 30 Mehefin 2025. Ychwanegwyd bod Archwilio Cymru yn anelu at ardystio cyfrifon yr Awdurdod ar y 13$^{eg}$ o Chwefror 2026, oedd yn ddiweddarach na'r dyddiad cau 31 Hydref 2025.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch y dyddiadau cau a fethwyd, a'r problemau oedd wedi achosi'r oedi i'r ddwy ochr yn ystod y broses. Dywedodd Mr J Blewitt bod methu cwrdd â'r dyddiadau cau wedi bod yn broblem ar draws nifer o gyrff llywodraeth leol, a dywedodd bod hyn i'w briodoli i amrywiaeth o ffactorau gan gynnwys problemau hanesyddol, problemau mewnol megis colli aelodau allweddol o'r staff mewn adrannau bach, ac adnoddau annigonol. Tynnodd y Swyddog Adran 151 sylw at y ffaith, gan fod Adrannau Cyllid yr Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn

fach ac nad oedd ganddynt staff penodedig i ganolbwyntio ar yr Archwiliad, y bernir bod y dyddiadau cau statudol yn afresymol.

Dywedwyd bod gwallau sylfaenol yn y balans o’r Gronfa Ailbrisio wedi'u clustnodi fel rhan o'r archwiliad, a bod diwygiadau wedi'u gwneud i'r datganiadau ariannol o ganlyniad i hynny. Nodwyd bod y gwallau hyn yn wallau hanesyddol oedd yn dyddio'n ôl nifer o flynyddoedd. I egluro, dywedodd Mr J Blewitt bod Archwilio Cymru yn archwilio ar sail sampl oedd wedi golygu nad oedd y gwallau wedi’u clustnodi yn yr archwiliadau blaenorol.

Roedd  yr Aelodau yn cydnabod, er gwaethaf heriau’r broses archwilio, nad oedd unrhyw risgiau arwyddocaol wedi’u clustnodi, a bod hyfforddiant wedi’i gynnal i gynorthwyo awdurdodau bach i leihau’r heriau hyn yn y dyfodol.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **penderfynwyd** derbyn yr adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon a baratowyd gan Archwilio Cymru, a chymeradwyo'r llythyr cynrychiolaeth at archwilwyr.

Ar gynnig Mr J Hogg, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cymeradwyo'r Adroddiad Naratif Blynyddol, y Datganiad o Gyfrifon 2024/25 a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

[Gadawodd y Cynghorydd D Clements y cyfarfod yr adeg hon.]

**10. Llythyr ar yr Ymgynghori ar y Ffioedd Archwilio 2026/27**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr lythyr oddi wrth yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch y ffioedd Archwilio am y flwyddyn 2026/27. Dywedwyd y byddai'r ffioedd archwilio yn codi 5.3% yn 2026/27, a nodwyd bod 5.3% yn sylweddol uwch na’r gyfradd chwyddiant ac yn uwch nag unrhyw gynnydd rhesymol a ddisgwylir yng nghyllideb graidd yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod yr Awdurdod ynghyd â'r ddau Awdurdod Parc Cenedlaethol arall wedi ymateb i’r ymgynghoriad gan Archwilio Cymru ar ei ffioedd am 2026/27. Eglurodd y Prif Weithredwr bod ffioedd archwilio yn elfen sylweddol o gostau'r Awdurdod, ac er bod yr Awdurdod wedi bod yn derbyn cyllidebau llinell wastad ac yn rheoli diffygion sylweddol, roedd y ffioedd Archwilio wedi parhau i gynyddu. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r Awdurdod yn parhau i gyflwyno sylwadau i Archwilio Cymru ynghylch y ffioedd archwilio cynyddol.

**Nodwyd.**

**11. Ardoll Cyngor Sir Penfro 2026/27**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn gofyn am awdurdod yr Aelodau i gyhoeddi'r ardoll o £1,183,000 i Gyngor Sir Penfro am y flwyddyn ariannol 2026/27. Eglurodd y Swyddog bod yr ardoll wedi cynyddu £45,805 o'i gymharu â 2025/26 oherwydd y cynnydd yng Ngrant Llywodraeth Cymru i'r Parc Cenedlaethol y mae cyfrif yr ardoll yn seiliedig arno.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo swm yr Ardoll am y flwyddyn 2026/27.
b) Awdurdodi cyhoeddi llythyr yr Ardoll i Gyngor Sir Penfro am y swm o £1,183,000.
c) Bod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol yn parhau â'r trefniant presennol o dalu 12 rhandaliad cyfartal bob mis i'w dderbyn ar neu cyn y 12$^{fed}$ o bob mis calendr, drwy drosglwyddiad banc.

[Ymunodd y Cynghorydd D Clements â'r cyfarfod ar-lein yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol. Nid oedd Mrs S Hoss yn bresennol ar gyfer yr eitem ganlynol gyfan.]

**12. Cynllun Datblygu Lleol 2 – Canllawiau Cynllunio Atodol**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo'r pedair dogfen Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) fyddai'n cael eu defnyddio fel ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau cynllunio. Dywedwyd bod dogfennau drafft y CCA wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus a bod y Canllawiau wedi'u diwygio i gymryd i ystyriaeth y sylwadau a godwyd gan aelodau'r cyhoedd, gyda chrynodeb o'r newidiadau a nodwyd yn yr adroddiad. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys rhagor o wybodaeth gefndir, manylion yr ymgynghoriad, a'r cyd-destun polisi strategol.

Gofynnodd Aelod a fyddai'r Canllawiau Cynllunio Atodol diwygiedig yn caniatáu mwy o gyfleoedd ar gyfer datblygu yn y Parc, ac mewn ymateb, cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r safleoedd eithriedig tai fforddiadwy yn cynnig mecanwaith allweddol i ddatblygwyr allu cyflawni gwaith datblygu. Ychwanegodd, fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol 3, ei bod yn ofynnol i'r tîm glustnodi safleoedd addas lle gellid gwneud y mwyaf o ddatblygu tai fforddiadwy.

Cytunodd yr Aelodau y byddai'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn helpu i roi mwy o eglurder ac yn ategu gwaith y Swyddogion a'r Aelodau yn eu proses o wneud penderfyniadau.

Ar gynnig y Cynghorydd A Tinley, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **penderfynwyd**:

a) Mabwysiadu'r dogfennau canlynol fel canllawiau cynllunio atodol (CCA):
   i. Canllawiau Cynllunio Atodol ar Addasiadau yng nghefn gwlad (Atodiad A).
   ii. Canllawiau Cynllunio Atodol ar Amnewid Anheddau yng nghefn gwlad (Atodiad B).
   iii. Canllawiau Arfer Da ar Gadwraeth a Gwella Awyr Dywyll, a nodyn esboniadol (Atodiad C).
   iv. Canllawiau Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy (Atodiad D).

b) Nodi’r adroddiad ymgynghori.

**13. Ymateb i'r Ymgynghoriad ar y Cytundeb Cyflawni**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i’r ymateb i’r ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni Drafft y Cynllun Datblygu Strategol i'w gyflwyno i Gyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru. Dywedwyd bod gan y Cyd-bwyllgor hwn ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol oedd yn nodi'r fframwaith rhanbarthol ar gyfer datblygu a defnyddio tir. Ychwanegwyd y byddai gan y Cynllun Datblygu Strategol, unwaith y caiff ei fabwysiadu, statws cynllun datblygu, ac y byddai'n rhan o hierarchaeth cynllun datblygu yng Nghymru.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Alderman, **penderfynwyd** cymeradwyo'r ymateb i’r ymgynghori ar Gytundeb Cyflawni Drafft y Cynllun Datblygu Strategol, a chytuno i’w gyflwyno i Gyd -bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru.

[Gohiriwyd y cyfarfod o 11:25am – 11:40am]

**14. Polisi Cymru Wrth-hiliol**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad oedd yn ceisio cytundeb yr Aelodau i lofnodi Polisi Cymru Wrth-hiliol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i gynnal y safonau uchaf o gynhwysiant a gwerthfawrogiad o amrywiaeth. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod wedi cynnwys y bwriad i lofnodi Polisi Cymru Wrth-hiliol yn ei Gynllun Cydraddoldeb oedd wedi'i gymeradwyo gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol ar y 5ed o Chwefror 2025. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y polisi ar gael ar-lein i'w lofnodi gan sefydliadau ac unigolion.

Cytunodd yr Aelodau, er y byddai llofnodi'r polisi yn gam pwysig, mai'r her fyddai i'r Awdurdod ymgorffori a chyflawni amcanion y polisi ar draws yr Awdurdod.

Ar gynnig y Cynghorydd S Hancock, a eiliwyd gan y Cynghorydd T Evans, **penderfynwyd** llofnodi'r Polisi Cymru Wrth-hiliol.

**15. Digwyddiadau Corfforaethol**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau ar lefel y gynrychiolaeth yng Nghynhadledd Cynllunio Cymru, Seminar Aelodau Cymru, ac yng Nghynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd C George, **penderfynwyd** awdurdodi'r lefel ganlynol o gynrychiolaeth:

i. Cynhadledd Cynllunio Cymru: 18 Mehefin 2026 – Caerdydd (Cadeirydd a/neu Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu).
ii. Seminar Aelodau Cymru a gynhelir gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 8-9 Gorffennaf 2026 (Pob Aelod).
iii. Cynhadledd Parciau Cenedlaethol y DU - Parc Cenedlaethol y Cairngorms, 15-18 Medi 2026 (4 Aelod).

**16. Calendr Cyfarfodydd**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i galendr drafft y cyfarfodydd yn 2026/27.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd** cymeradwyo calendr y cyfarfodydd yn 2026/27.